Sefyll dros ei bobl

(ffyddlondeb / dewrder / gweledigaeth / penderfyniad)

Gweinidog oedd Laszlo. Nid yn unig roedd yn ymweld â'i bobl yn gyson ond roedd hefyd yn bregethwr da. Roedd gan y bobl feddwl y byd ohono. Pan fyddai rhywun yn wael byddai Laszlo yno ymhlith y rhai cyntaf. Os byddai rhywun mewn angen Laszlo fyddai'r cyntaf i gynnig cymorth iddo. Ar y Sul byddai pobl o bob man yn dod i wrando arno'n pregethu ac yn dysgu am Dduw. Ar eu ffordd allan o'r eglwys un bore, dywedodd un o'r gynulleidfa, "Dyna bregeth ardderchog."

"Ie'n wir," meddai un arall, "roeddwn i'n deall pob gair ohoni."

"Mae'r gweinidog yma'n cyflwyno neges Iesu Grist i ni yn syml a chlir. Roeddwn innau hefyd yn deall pob gair oedd ganddo i'w ddweud y bore yma," meddai un arall.

Fel hyn y byddai'r sgwrs yn mynd bob bore yn dilyn y gwasanaeth boreol.

Pobl dan orthrwm oedd y mwyafrif o'i gynulleidfa. Unben o gomiwnydd o'r enw Ceansescu oedd yn rheoli'r wlad. Byddai'n cam-drin y bobl. Dechreuodd Laszlo bregethu yn erbyn yr unben hwn. Bob Sul byddai mwy a mwy o bobl yn dod i'r eglwys i wrando arno'n pregethu gair Duw. Soniai'n gyson am ddioddefaint Iesu Grist. Sut yr oedd ef wedi dioddef o dan bwysau ei ormeswyr. Soniodd am y ffordd y wynebodd Iesu ei ddioddefwyr.

"Ffrindiau," meddai Laszlo ar ei bregeth, "fe wynebodd Iesu ei ddioddefwyr trwy weddïo drostyn nhw. Pan oedd y milwyr Rhufeinig yn pwyo'r hoelion i'w gorff roedd Iesu'n maddau iddyn nhw, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.' Bydd rhaid i ninnau wynebu'r gelyn yn ddi-ofn ac yn gadarn. Mae Duw o'n plaid..."

Weithiau byddai'r gynulleidfa'n codi ar eu traed ac yn clapio i'w gweinidog. Ymhen dwy flynedd roedd y gynulleidfa yn ninas Timisoara wedi cynyddu i dros bum mil o bobl.

Clywodd yr unben Ceansescu fod Laszlo yn pregethu yn erbyn ei ffordd ef o redeg y wlad. Anfonodd ei heddlu i sefyll o flaen yr eglwys ac i rwystro pobl rhag mynd i mewn i wrando arno. Galwodd yr heddlu ar rai o fandaliaid y ddinas i ymosod ar y gweinidog. Gorchmynnodd yr unben fod yn rhaid i'r gweinidog

adael ei eglwys yn y ddinas. Pan ddaeth criw o heddlu i gyrchu'r gweinidog fe'u rhwystrwyd gan fur o bobl o bob enwad crefyddol yn y ddinas. Arhosodd y bobl o gwmpas yr eglwys am ddwy noson yn canu a gweddïo yng ngolau canhwyllau. Yn y diwedd rhuthrodd yr heddlu i mewn i'r eglwys gan dorri'r drws. Roedd Laszlo'n cuddio yn y festri. Rhuthrodd yr heddlu i mewn a'i arwain i ffwrdd.

Yn ystod y dyddiau oedd yn dilyn fe symudodd y brotest i sgwâr Bucharest. Ond, erbyn hyn, roedd galw cryf gan bawb am ryddid o grafangau'r unben. Dechreuodd y milwyr saethu at y protestwyr. Anafwyd niferoedd ohonyn nhw. Ond, yn sydyn, dechreuodd y milwyr ymuno yn y brotest. Ymhen ychydig ddyddiau roedd yr unben Ceansescu wedi ei orchfygu a châi Laszlo ei gyfrif yn arwr.

Adnod: "Ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth, a phethau gwan y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r pethau cedyrn."
1 Corinthiaid 1:27

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am ddefnyddio unigolion, pobl gyffredin, i wneud dy waith yn y byd. Amen.

Trafod:

- Tybed a oedd Laszlo'n ddyn dewr ynteu'n ddyn ffôl?
- A fyddech chi'n dweud fod gan weinidog yr hawl i fod yn rhan o ymgyrch boliticaidd?